Y CRIW
Mentrus
Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd

Cyfnod Allweddol 2

Gweithgaredd 7:
Beth mae pobl ei eisiau?

Amcan Dysgu
Helpu i ddatblygu sgiliau ymchwilio a chyfathrebu.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Cysylltiadau
- Gweithio gyda Phobl Eraill
- Cyfathrebu

Trefniadaeth
- Ymchwil – deall yr amgylchedd

Gweithgareddau dysgu
Gofynnwch i'r disgyblion nodi dulliau o ddarganfod beth mae pobl ei eisiau / yn hoffi am gynnyrch/gwasanaeth.

Mewn grwpiau, gofynnwch i'r disgyblion feddwl am fanteision ac anfanteision defnyddio dulliau gwahanol e.e. arolygon, grwpiau ffocws, cyfweliadau un-i-un.

Gofynnwch i'r disgyblion nodi eu marchnad darged a pha ddull byddai'n well ganddyn nhw ei ddefnyddio a pham?

Gofynnwch i'r disgyblion ddyfeisio cwestiynau syml ymchwil i'r farchnad a phenderfynu sut fyddan nhw'n cael eu defnyddio. Cofiwch:
- gadw'r cwestiynau yn fyr ac yn syml
- gofyn dim ond un peth ar y tro
- defnyddio geiriau mae'r bobl sy'n cael eu cyfweld yn eu deall.

Mae'r disgyblion yn cynnal ymchwil i'r farchnad i'w helpu i ddysgu mwy am y farchnadle lle bydd eu cynnyrch neu eu gwasanaeth yn cael eu gwerthu.

Gofynnwch i'r disgyblion goladu'r ymatebion a chyflwyno'r data ar ffurfiau priodol e.e. siartiau cyfrif, siartiau bar neu graffiau llinell.

Mae'r disgyblion yn ysgrifennu crynodeb o *"Beth ddysgon ni?"* ac *"Ydy'n cynnyrch / gwasanaeth yn syniad da neu beidio?"* Mae'r disgyblion yn defnyddio hyn i lywio eu gwaith cynllunio busnes.

Gweithgaredd 7:
Beth mae pobl ei eisiau?

Cyfnod Allweddol 2

Canlyniad dysgu

Bydd y disgyblion yn datblygu sgiliau ymchwilio syml ac yn defnyddio cwestiynau priodol i gaffael gwybodaeth.

Adnoddau mae eu hangen

- TGCh
- Bwrdd gwyn rhyngweithiol

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

1. Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Llythrennedd

Llafaredd ar draws y cwricwlwm

Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau;

- Siarad
- Gwrando
- Cydweithredu a thrafod.

Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm

- Trefnu syniadau a gwybodaeth
- Ysgrifennu'n gywir.

Rhifedd

Defnyddio sgiliau data

- Casglu a chofnodi data
- Cyflwyno a dadansoddi data

- Dehongli'r canlyniadau.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government